RHAGARWEINIAD

Mae'r papur gwyn hwn yn rhan o gyfres sy'n hyrwyddo gwybodaeth am dechnoleg iaith a'i photensial. Mae'n targedu addysgwyr, newyddiadurwyr, llunwyr polisi, gwleidyddion, cynrychiolwyr a chymunedau ieithyddol ac eraill. Mae faint o dechnoleg iaith sydd ar gael yn Ewrop a'r defnydd ohoni yn amrywio rhwng ieithoedd. O ganlyniad, mae'r camau gweithredu y mae eu hangen i gefnogi ymchwil bellach ac i ddatblygu technolegau iaith hefyd yn wahanol ar gyfer pob iaith. Mae'r camau gweithredu angenrheidiol yn dibynnu ar sawl ffactor, megis cymhlethdod yr iaith a nifer ei siaradwyr. Yn y gyfres hon o bapurau gwyn, mae META-NET, rhwydwaith o ragoriaeth a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd, wedi cynnal dadansoddiad o'r adnoddau a thechnolegau ieithyddol cyfredol sydd ar gael. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar 23 iaith swyddogol Ewrop yn ogystal ag ieithoedd cenedlaethol a rhanbarthol pwysig eraill Ewrop. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod llawer o fylchau ymchwil sylweddol ar gyfer pob iaith. Bydd dadansoddiad mwy manwl-arbenigol ac asesiad o'r sefyllfa bresennol yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar ymchwil ac i leihau risgiau. Fis Tachwedd 2011, roedd META-NET yn cynnwys 54 o ganolfannau ymchwil o 33 o wledydd Ewropeaidd sydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid o'r economi (cwmnïau meddalwedd, darparwyr a defnyddwyr technoleg) asiantaethau llywodraethol, sefydliadau ymchwil, sefydliadau anllywodraethol, cymunedau ieithyddol a Phrifysgolion Ewropeaidd. Ar y cyd â'r cymunedau hyn, mae META-NET wrthi'n creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer technoleg ac agenda ymchwil strategol ar gyfer Ewrop amlieithog yn 2020

PREFACE

This white paper is part of a series that promotes knowledge about language technology and its potential. It addresses journalists, politicians, language communities, educators and others. The availability and use of language technology in Europe varies between languages. Consequently, the actions that are required to further support research and development of language technologies also differ. The required actions depend on many factors, such as the complexity of a given language and the size of its community.

META-NET, a Network of Excellence funded by the European Commission, has conducted an analysis of current language resources and technologies in this white paper series. The analysis focuses on the 23 official European languages as well as other important national and regional languages in Europe. The results of this analysis suggest that there are tremendous deficits in technology support and significant research gaps for each language. The given detailed expert analysis and assessment of the current situation will help maximise the impact of future research.

As of November 2011, META-NET consists of 54 research centres in 33 European countries. META-NET is working with stakeholders from economy (software companies, technology providers and users), government agencies, research organisations, non-governmental organisations, language communities and European universities. Together with these communities, META-NET is creating a common technology vision and strategic research agenda for multilingual Europe 2020.

Mae awdur y ddogfen hon yn ddiolchgar i awduron y papur gwyn ar yr Almaeneg [1] am ganiatâd i ailddefnyddio peth deunydd annibynnol-ar-iaith o'u dogfen ac i Laura Amey, John Judge, Jonathan Morris, Michael Speed, a Colin Williams am eu cymorth gyda'r papur hwn.

Ariannwyd datblygu'r papur gwyn hwn gan Raglen Seithfed Fframwaith a Rhaglen Cefnogi Polisi TG y Comisiwn Ewropeaidd o dan y contractau T4ME (Cytundeb Grant 249119), CESAR (Cytundeb Grant 271022), META-NET4U (Cytundeb Grant 270893) a META-NORD (Cytundeb Grant 270899).

The author of this document is grateful to the authors of the white paper on German for permission to re-use selected language-independent materials from their document [1], and to Laura Amey, John Judge, Jonathan Morris, Michael Speed, and Colin Williams for their help with this paper.

The development of this white paper has been funded by the Seventh Framework Programme and the ICT Policy Support Programme of the European Commission under the contracts T4ME (Grant Agreement 249119), CESAR (Grant Agreement 271022), METANET4U (Grant Agreement 270893) and META-NORD (Grant Agreement 270899).

http://www.springer.com/978-3-642-45371-7

The Welsh Language in the Digital Age
Rehm, G.; Uszkoreit, H. (Eds.)
2014, VI, 74 p. 21 illus. in color., Softcover
ISBN: 978-3-642-45371-7